

Mick Antoniw AS/MS

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

13 Mai 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mai. Fel yr ydych yn ymwybodol, ar 10 Mai 2022, agorodd Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru sesiwn newydd Senedd y DU yn ffurfiol ar ran Ei Mawrhydi y Frenhines, gan amlinellu hefyd ddeddfwriaeth arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn newydd.

Rwyf wedi cyhoeddi heddiw ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â'r goblygiadau disgwylidig i'r Senedd yn deillio o'r rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein trefniadau ymgysylltu â Llywodraeth y DU.

Rwy'n awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i gydweithio â'r Senedd ar faterion cydsyniad deddfwriaethol, a hyderaf y byddwch yn croesawu'r llythyr cynnar hwn a'r Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig yn yr ysbryd hwnnw. Gallaf gadarnhau y byddaf yn bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 20 Mehefin. Rwy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

gobeithio y bydd gen i ragor o wybodaeth am y biliau y cyfeirir atynt yn y Datganiad
Ysgrifenedig erbyn hynny ac edrychaf ymlaen at drafod ymhellach yn y cyfarfod hwnnw.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau eraill.

A handwritten signature in blue ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS/MS

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution